Gwnaed y diweddariad diwethaf i’r nodyn cyngor hwn ar 3 Chwefror 2026 ac fe’i lluniwyd gan ein hymgynghorydd ariannol, Parkinson Partnership LLP.

Cyflwyniad

Mae’r nodyn cyngor hwn yn berthnasol yn Lloegr a Chymru, ond mae Rheoliadau Caffael ar wahân i Gymru, a chyfeirir at y ddwy fersiwn lle’n berthnasol.

Bwriad y nodyn cyngor hwn yw cynnig trosolwg o’r rheolau a gyflwynwyd gan Ddeddf Caffael 2023 (Deddf 2023). Nid yw’n fwriad iddo olygu osgoi darllen canllawiau manwl y llywodraeth pan mae cyngor yn gwneud caffaeliad, neu pan mae amgylchiadau’r caffaeliad yn anarferol.

Mae "caffael" yn cyfeirio at broses sy’n galluogi cynghorau i ddyfarnu a rheoli contractau i gaffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau oddi wrth drydydd partïon. Mae’n cynnwys prynu popeth o ddeunyddiau swyddfa i adeiladu canolfan adeiladu fawr. Nid yw’n fwriad i Ddeddf 2023 ddarparu ar gyfer trefniadau cydadferol neu gefnogol yn unig, megis grantiau.

Un agwedd a gafodd ei chryfhau ers y Rheoliadau diwethaf yw gofalu y gall endidau llai gymryd rhan mewn cystadleuaeth ar gyfer contractau. Mae’n rhaid i gynghorau ystyried y ffaith y gall mentrau bach i ganolig wynebu rhwystrau rhag gallu cymryd rhan ac ystyried a ellir gwaredu neu leihau’r rhwystrau hyn. Amlinellir yr angen hwn yn Adrannau 12 ac 86 Deddf 2023.

Mae’r Ddeddf hefyd yn ymhlygu telerau talu 30-diwrnod ar gyfer anfonebau diamheuol ymhob contract dros £30,000 (gan gynnwys TAW), ac mae hyn yn disodli unrhyw gyfnodau hirach a gynhwyswyd yn y contractau hynny (trowch at Adrannau 66 ac 88 Deddf 2023).

Caffaeliad o dan £30,000

Nid yw unrhyw ran o Ddeddf 2023 yn berthnasol i unrhyw gaffael lle y mae’r gwerth amcangyfrifiedig yn llai na £30,000, gan gynnwys TAW. Rhaid i gynghorau ddilyn eu rheoliadau ariannol eu hunain, a ddylai nodi uchafswm gwerth pryniannau heb gael amcanbrisiau a phennu ar ba werth y bydd y cyngor yn gofyn am ddyfynbrisiau pris gosod yn hytrach nac amcanbrisiau.

Weithiau disgwylir i gontract fod yn is na £30,000 gan gynnwys TAW, ond gwelir fod ei werth yn uwch pan gaiff y contract ei lofnodi. Nid oes unrhyw angen mynd yn ôl a chychwyn y broses gaffael eto, ond bydd angen i’r cyngor gyhoeddi Hysbysiad Manylion Contract fel y’i disgrifir yn yr adran uchod.

Sylwer: Yng Nghymru, defnyddir ‘GwerthwchiGymru’ yn hytrach na gwasanaeth Find Tender.

Rhan Un — Caffael uwchlaw'r trothwy

Trothwyon caffael

Mae San Steffan yn gosod trothwyon i sicrhau cystadleuaeth deg mewn caffael cyhoeddus bob dwy flynedd. Pan mae disgwyl i werth contract fod yn uwch na'r trothwy perthnasol a ddefnyddir ar y pryd, rhaid dilyn gofynion llawn Deddf 2023 a Rheoliadau Caffael 2024 wrth wneud y caffaeliad. Gellir herio cyngor yn y llys os yw'n methu cydymffurfio â'r rheolau.

Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, mae'n gyfreithiol ofynnol ar gyngor i ddefnyddio proses dendro gystadleuol er mwyn dyfarnu contract sy'n uwch na'r trothwy perthnasol.

Mae'r trothwyon isod yn berthnasol i gynghorau rhwng 1 Ionawr 2026 a 31 Rhagfyr 2027:

- £207,720 yn cynnwys TAW wrth gaffael nwyddau neu wasanaethau, neu
- £5,193,000 yn cynnwys TAW ar gyfer gwaith cyhoeddus (adeiladu).

Diffinnir "gwaith" yn Atodlen 3 Rheoliadau Caffael 2024 ac mae'n cynnwys adeiladu, dymchwel, gwaith daear, atgyweiriadau, adfer, adnewyddu, gosod offer a gwaith masnachwyr megis plastrwyr, seiri coed a gwydrwyr.

Pan mae contract yn is na'r trothwy "gwaith" ac yn cynnwys cymysgedd o fathau o waith a nwyddau neu wasanaethau, mae'n rhaid i'r cyngor ystyried a ellid darparu'r nwyddau a gwasanaethau o dan gontract ar wahân. Os gallant a phe bai gwerth y contract hwnnw yn uwch na'r trothwy "nwyddau a gwasanaethau", mae'n rhaid i'r cyngor ddilyn y rheolau yn Adran 5 Deddf 2023 er mwyn penderfynu a ddylid trin y contract cyfan yn gontract uwchlaw'r trothwy.

Ar gyfer contract fydd yn parhau am sawl blwyddyn, defnyddir y cyfanswm gwerth dros oes y contract (nid y gwerth blynyddol) i benderfynu a yw gwerth y contract yn uwch na'r trothwy perthnasol. Mae'n rhaid i hynny gynnwys unrhyw beth allai fod yn daladwy oherwydd dewis yn y contract i'w ymestyn neu i'w adnewyddu heb gystadleuaeth. Er enghraifft, os yw contract tair blynedd yn cynnwys y dewis i'w ymestyn am ddwy flynedd, y gwerth amcangyfrifiedig yw'r swm fyddai'n daladwy dros y cyfnod o bum mlynedd.

Ni ddylai cynghorau danamcangyfrif gwerth contractau yn fwriadol na'u rhannu'n artiffisial er mwyn osgoi dilyn y rheolau.

Eithriadau

Eithrir mathau penodol o gontractau (a amlinellir yn Atodlen 2 Deddf 2023) o ofynion tendro oherwydd natur y gweithgarwch neu'r berthynas rhwng y partïon dan sylw.

Mae enghreifftiau o gontractau a eithrir oherwydd natur y berthynas yn cynnwys:

- Contractau yn cynnwys endid y mae'r cyngor yn ei reoli (megis cwmni masnachu awdurdod lleol).
- Trefniadau rhwng awdurdodau sy'n cydweithio i sicrhau nodau cyffredin ar gyfer eu swyddogaethau cyhoeddus.

Mae contractau a eithrir oherwydd eu natur yn cynnwys:

- Prynu tir, adeiladau neu hawliau cysylltiol.
- Cynrychiolaeth gyfreithiol mewn anghydfodau a gwasanaethau notarïau.
- Dulliau amgen o ddatrys anghydfodau.
- Gwasanaethau darlledu cyhoeddus a chyfathrebu cyhoeddus electronaidd.
- Benthyciadau a buddsoddiadau.
- Cyflogaeth.
- Gwasanaethau brys.
- Trafnidiaeth gyhoeddus (a gynhwysir mewn Rheoliadau eraill).

Dylai cynghorau gyfeirio at y diffiniadau manwl yn Atodlen 2 Deddf 2023 ac ni ddylent ragdybio y cafodd contract ei eithrio o dendro heb wirio hynny yn gyntaf.

Mae'n annhebyg y bydd cynghorau lleol yn ymwneud â chontractau llai manwl, sy'n cael eu neilltuo ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill a ddarperir yn uniongyrchol i unigolion neu grwpiau o bobl.

Mae'n annhebyg y bydd y rheolau ar gyfer contractau cyfleustodau yn berthnasol i gynghorau lleol gan eu bod yn ymwneud â chyflenwi nwy, gwres, trydan neu ddŵr i'r cyhoedd trwy rwydweithiau sefydlog.

Yn yr un modd, ychydig gynghorau fydd yn cael eu heffeithio gan y rheolau ar gyfer contractau consesiynau, lle mai rhan o'r ystyriaeth ar gyfer y cyflenwi yw hawl y cyflenwr i fanteisio ar y gwaith neu wasanaethau. Nid yw'r rheolau hyn ond yn berthnasol uwchlaw'r trothwy "gwaith".

Dyfarniadau uniongyrchol

Hefyd, gall cyngor ddyfarnu contract yn uniongyrchol heb gystadleuaeth mewn amgylchiadau penodol a amlinellir yn Atodlen 5 Deddf 2023. Mae hyn yn cynnwys:

- Osgoi derbyn nwyddau sy'n anghydnaws â stoc bresennol (er enghraifft, prynu colofnau goleuadau stryd sy'n unfath â'r rhai presennol).
- Creu darn o gelfyddyd neu berfformiad artistig.
- Sefyllfaoedd lle nad oes ond un cyflenwr ac na ellir cael y nwyddau neu wasanaethau yn unman arall.
- Contractau lle mae'r telerau yn arbennig o fanteisiol oherwydd bod cyflenwr yn mynd trwy broses methdaliad.
- Sefyllfaoedd o frys mawr na chafodd ei ragweld, nad yw'n deillio o unrhyw weithred neu hepgoriad gan y cyngor.
- Ymgysylltu Rhagarweiniol â'r Farchnad

Cyn gwahodd tendrau, gall cyngor ymgysylltu â darpar gyflenwyr ac eraill i ddatblygu gofynion a dulliau gweithredu'r cyngor . Gall hyn gynnwys dylunio gweithdrefn, amodau cymryd rhan neu feini prawf dyfarnu, paratoi'r dogfennau tendro a thelerau'r contract, dod o hyd i ddarpar gyflenwyr neu adeiladu capasiti ymhlith cyflenwyr.

Nid yw ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad yn rhan o'r broses dendro; mae'n rhywbeth sy'n digwydd cyn i gyngor wahodd pobl i gymryd rhan. Rhaid i gyngor ofalu nad yw unrhyw un sy'n rhan o'r ymgysylltu rhagarweiniol yn cael mantais annheg ac nad yw hynny'n tarfu ar y cystadlu. Pan na ellir osgoi creu mantais, efallai y bydd rhaid i gyngor atal y cyflenwr rhag cymryd rhan yn y broses dendro.

Dyletswydd i ystyried lotiau

Cyn cyhoeddi hysbysiad tendro uwchlaw'r trothwy, mae'n rhaid i gyngor ystyried a ellid yn rhesymol darparu'r nwyddau, gwasanaethau neu waith trwy fwy nac un contract, ac os felly, a ellid dyfarnu contractau o'r fath mewn lotiau.

Nid yw rhannu caffaeliad yn lotiau llai yn cael gwared â'r angen i gynnal y broses dendro yn unol â Deddf 2023.

Proses dendro

Mae Deddf 2023 yn amlinellu egwyddorion y mae'n rhaid i gyngor eu hystyried:

- Sicrhau gwerth am arian.
- Cynnig y budd mwyaf i'r cyhoedd.
- Rhannu gwybodaeth er mwyn i gyflenwyr ddeall gweithdrefnau'r cyngor.
- Gweithredu, a chael eu gweld yn gweithredu, gydag uniondeb.

Ar gyfer contractau uwchlaw'r trothwy na chawsant eu heithrio, mae Deddf 2023 yn mynnu fod cynghorau yn defnyddio gweithdrefn dendro gystadleuol sy'n rhoi'r cyfle i gyflenwyr gynnig am gontractau cyhoeddus ar gae chwarae gwastad.

Mae proses dendro yn sicrhau bod pob cynnig yn cael eu cadw'n gyfrinachol ac yn cael eu hagor gyda'i gilydd fel na all unrhyw un roi mantais i unrhyw gynnig trwy ddatgelu ffigyrau eu cystadleuwyr. Yn gyffredinol, mae hefyd yn golygu prisio ar sail manyleb fanwl, yn hytrach na dim ond rhoi pris gosod am y gwaith, fel ei bod yn haws i gynghorau gymharu tendrau.

Mae'n rhaid hysbysebu'r hysbysiad gwahoddiad i dendro (Ffurflen UK4) ar Lwyfan Digidol Canolog y llywodraeth (Find-Tender) yn unol â Deddf 2023, ac mae dwy drefn y gall cyngor eu dilyn:

Trefn tendr agored — Gall unrhyw un gyflwyno tendr, ac mae pob ymateb yn cael eu hasesu gyda'i gilydd.

Trefn hyblyg gystadleuol — Gall gynnwys sawl cam er mwyn lleihau nifer y cynigion sy'n cael eu hystyried, megis gwahodd ceisiadau i gymryd rhan neu osod amodau ar gymryd rhan.

Mae'n rhaid i drefniadau fod yn gymesur â natur a chymhlethdod y contract.

Cyn cyhoeddi gwahoddiad i dendro, rhaid i gyngor ddiffinio ei feini prawf ar gyfer asesu'r tendrau, dangos pwysigrwydd cymharol pob maen prawf a disgrifio sut fydd tendrau yn cael eu mesur yn eu herbyn.

Un o'r prif ofynion ar gyfer unrhyw feini prawf dyfarnu yw bod rhaid iddynt fod yn ddigon clir, mesuradwy a phenodol. Gallai fod yn ddefnyddiol i gyngor ddarllen canllawiau'r Llywodraeth ar feini prawf dyfarnu cyn llunio proses dewis tendrau, er mwyn sicrhau y gallant esbonio'n glir sut wnaethant eu penderfyniad.

Cytundebau fframwaith

Mae cytundeb fframwaith yn golygu fod cyngor yn contractio gyda chyflenwr neu gyflenwyr ar gyfer dyfarnu contractau yn y dyfodol am gyfnod hyd at bedair blynedd. Fe'u defnyddir fel arfer i osod prisiau am waith rheolaidd. Defnyddir proses gystadleuol i lunio'r cytundeb a galluogi cyflenwyr i gymryd rhan. Mae hyn fel arfer yn gosod prisiau ymlaen llaw, fel nad yw'r cyngor yn gorfod trefnu proses gystadleuol ar gyfer pob contract.

Mae'n annhebyg y bydd gan gynghorau lleol eu cytundebau fframwaith eu hunain, ac mae'r canllawiau ar gyfer Deddf 2023 yn dangos nad yw'r llywodraeth yn disgwyl gweld cytundebau fframwaith o dan y trothwy o £207,720.

Os oes gan brif awdurdod gytundeb fframwaith ar gyfer gwasanaethau penodol a'i fod wedi cynnwys plwyfi lleol yn y cytundeb hwnnw, gallai fod gan gynghorau hawl i gaffael gwasanaethau (er enghraifft, gwaith ar goed neu osod colofn golau stryd) trwy'r cytundeb fframwaith, yn hytrach na gorfod gofyn am ddyfynbrisiau.

Mae gan Wasanaeth Masnachol y Goron nifer o gytundebau fframwaith ar gael i'r sector cyhoeddus, ac mae ei wefan yn cynnig disgrifiad o sut mae'r broses yn gweithio.

Dyfarnu contract uwchlaw'r trothwy

Gall cyngor ddyfarnu contract i'r cyflenwr sydd yn ei farn ef wedi cyflwyno'r tendr mwyaf manteisiol. Dylai hynny olygu'r tendr sy'n bodloni gofynion y cyngor ac sy'n cyflawni orau y meini prawf dyfarnu y cafodd tendrau eu hasesu yn eu herbyn.

Cyn dyfarnu contract uwchlaw'r trothwy perthnasol, mae'n rhaid i gyngor ddarparu crynodeb asesu i bob cyflenwr a gyflwynodd dendr a aseswyd o dan Adran 50 Deddf 2023, yn esbonio eu hasesiad o'r tendr a gyflwynwyd ynghyd â'r tendr llwyddiannus

Yna rhaid cyhoeddi "hysbysiad dyfarnu contract" (Ffurflen UK6) ar Find-Tender, a rhaid i'r cyngor aros am wyth niwrnod gwaith (y "cyfnod sefyll yn llonydd") cyn y gellir dyfarnu'r contract.

Mae hwn yn hysbysiad fod y cyngor yn bwriadu dyfarnu contract ac mae'r cyfnod sefyll yn llonydd yn rhoi amser i dendrwr tramgwyddedig gychwyn camau cyfreithiol. Mae Adran 101 Deddf 2023 yn rhwystro cyngor rhag dyfarnu contract pan gafodd wybod bod camau cyfreithiol wedi cychwyn.

Unwaith y dyfarnodd gontract uwchlaw'r trothwy, mae'n rhaid i'r cyngor gyhoeddi Hysbysiad Manylion Contract (Ffurflen UK7) ar Find-Tender o fewn 30 diwrnod i ddyfarnu'r contract i gyflenwr, waeth pa broses a ddefnyddiwyd i ddewis y contractwr. Pwrpas Ffurflen UK7 yw casglu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y Rheoliadau.

Rhan Dau — Caffael yn is na’r trothwy

Sicrhau cystadleuaeth

Pan nad yw gofynion llawn Deddf 2023 yn berthnasol, mae gan gynghorwyr a swyddogion ddyletswydd gyffredinol o hyd i fod yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol wrth wario arian cyhoeddus (a elwir yn aml yn werth am arian). Mae disgwyl i archwilwyr wirio fod y trefniadau hyn ar waith.

Mae Adran 135 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn mynnu fod gan gynghorau Reolau Sefydlog "ar gyfer sicrhau cystadlu am gontractau" a "rheoleiddio’r ffordd y gwahoddir tendrau". Byddai defnyddio proses dendro ffurfiol ar gyfer pob pryniant yn araf ac yn cymryd amser, felly mae’r Ddeddf yn caniatáu cynghorau i eithrio contractau o dendro os ydynt yn is na gwerth penodol, neu lle y gellir cyfiawnhau eithrio oherwydd amgylchiadau arbennig.

Mae’n rhaid i bob cyngor bennu ar ba lefel y bydd yn defnyddio proses dendro ffurfiol i sicrhau cystadlu teg. Y gwerth diofyn ym Model Reoliadau Ariannol NALC yw £60,000 a TAW, ond gall cynghorau newid hyn yn ôl eu hanghenion eu hunain.

Nid oes angen tendrau ffurfiol ar gyfer eitemau yn is na’r gwerth a bennir gan y cyngor. Gall cyngor ofyn am ddyfynbrisiau neu amcanbrisiau yn unol â’i Reoliadau Ariannol.

Cyhoeddi gwahoddiadau tendro yn is na’r trothwy

Mae’n gamsyniad cyffredin fod rhaid hysbysebu pob contract dros £30,000 a bod rhaid defnyddio proses dendro. Mae Nodyn 538 i Ddeddf 2023 yn esbonio nad yw hynny’n wir: Nid oes rhaid i awdurdod contractio sy’n gwneud caffaeliad is na’r trothwy hysbysebu’r contract dan sylw ond gall ddewis gwneud hynny. Mae isadran [87](1) yn mynnu, os yw awdurdod contractio yn bwriadu hysbysebu caffaeliad yn gyhoeddus, fod rhaid iddo’n gyntaf gyhoeddi "hysbysiad tendro is na’r trothwy", fel y’i diffinnir yn isadran [87](5).

Mae paragraff 15 Canllawiau’r llywodraeth: Below-Threshold Contracts yn esbonio: Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau contractio sy’n gwneud caffaeliad is na’r trothwy wrth lunio a chynnal caffaeliad a dyfarnu a rheoli’r contract sy’n dilyn. Gallai’r hyblygrwydd hwn (allai fod yn ddarostyngedig i bolisïau a gweithdrefnau lleol) gynnwys, er enghraifft, y gallu i ddewis dyfarnu contract heb gystadleuaeth, i ofyn am ddyfynbrisiau trwy dargedu cyflenwyr sy’n hysbys yn unig, neu gyfyngu dyfarnu contractau i gyflenwyr yng ngwledydd Prydain neu sydd wedi’u lleoli mewn sir neu fwrdeistref benodol yng ngwledydd Prydain neu i gyflenwyr sy’n fentrau bach a chanolig (SME), neu fentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol (VCSE).

Mae paragraff 23 yn ychwanegu "Nid oes unrhyw reidrwydd i gyhoeddi hysbysiad tendro is na'r trothwy pan mae'r awdurdod contractio yn gwahodd dyfynbrisiau, cynigion neu dendrau oddi wrth grŵp caeëdig o gyflenwyr a ddewiswyd ymlaen llaw, neu oddi wrth gyflenwr neu gyflenwyr unigol a dargedwyd, ar yr amod nad yw'n hysbysebu'r caffaeliad mewn unrhyw ffordd arall".

Gelwir contractau dros £30,000, gan gynnwys TAW (na chawsant eu heithrio o Ddeddf 2023), yn "gontractau is na'r trothwy hysbysadwy". Mae gan gyngor gyfrifoldebau hysbysu penodol os yw'n penderfynu cynnig gwahoddiad agored i dendro uwchlaw'r gwerth hwnnw, a hefyd pan mae'n dyfarnu contract uwchlaw'r gwerth hwnnw i gyflenwr. Esbonnir y rhain isod.

Mae Adran 87(1) Deddf 2023 yn mynnu fod rhaid i gyngor sy'n cynnig gwahoddiad agored i dendro gyhoeddi'r hysbysiad gwahodd ar Find-Tender cyn iddo ymddangos yn unrhyw le arall, os yw'r amcangyfrif gwerth dros £30,000, gan gynnwys TAW. Nid oes angen hysbysiad os yw cyngor yn cyfyngu'r gwahoddiad tendro i "gyflenwyr penodedig neu a ddewiswyd ymlaen llaw".

O dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, a gyfeiriodd at "gyfleoedd contract", mae Deddf 2023 yn cyfeirio'n benodol at wahoddiadau tendro. Nid yw'r angen i hysbysebu yn berthnasol os yw cyngor yn gofyn am ddyfynbrisiau pris gosod, cynigion dylunio neu'n defnyddio unrhyw ddull ac eithrio gwahoddiad i dendro.

Yn gyffredinol, mae Adran 85 Deddf 2023 yn rhwystro cynghorau rhag cynnwys cam cyn-cymhwyso (megis holiadur cyn-cymhwyso) mewn proses dendro is na'r trothwy. Ni ddylent atal unrhyw gyflenwr rhag cyflwyno tendr trwy asesu eu haddasrwydd cyfreithiol, ariannol, technegol neu o fath arall i gyflawni'r contract cyn y caiff y gwahoddiad ei ddanfon. Ni ddylid ond gwneud yr asesiad wedi i'r tendrau gael eu derbyn.

Mae eithriad i'r rheol hon, a gellir asesu addasrwydd cyflenwr ymlaen llaw ar gyfer contractau "gwaith" y credir y byddant yn uwch na'r trothwy nwyddau a gwasanaethau (ar hyn bryd mae'n £207,720 yn cynnwys TAW).

Cyhoeddi manylion contract a ddyfarnwyd

Ar gyfer unrhyw gontract hysbysadwy dros £30,000 gan gynnwys TAW, mae'n rhaid i'r cyngor gyhoeddi Hysbysiad Manylion Contract (Ffurflen UK7) ar Find-Tender o fewn 90 diwrnod i ddyfarnu'r contract i gyflenwr, waeth pa broses a ddefnyddiwyd i ddewis y contractiwr. Mae'r anghenion cyhoeddi wedi dyfarnu yn Adran 87(3) Deddf 2023 yn cyfeirio at "gontractau" yn hytrach na "thendrau".

Nodir cynnwys yr hysbysiad yn Rheoliad 36 Rheoliadau Caffael 2024 (Rheoliad 37 y rheoliadau i Gymru), a phwrpas Ffurflen UK7 yw casglu'r wybodaeth angenrheidiol. Mae canllawiau ym mharagraffau 25 a 39-43 canllawiau'r llywodraeth ar gyfer contractau is na'r trothwy.